Addysg / Education

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

☎ (01286) 679089 Ein Cyf / Our Ref:
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

15 Mehefin 2020

AT: RIENI/OFALWYR PLANT YSGOLION GWYNEDD

Annwyl Riant/Gofalydd

Bythefnos yn ôl, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg yng Nghymru y bydd ysgolion yn ailagor yn raddol ar gyfer trefniadau dod i'r ysgol a dal i fyny.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc fynychu ysgolion ar gyfer cyfnodau a ddyrannwyd er mwyn iddynt gael eu cefnogi yn eu lles a'u dysgu. Bydd y trefniadau dod i'r ysgol a dal i fyny yn amrywio o ysgol i ysgol; dylent ganolbwyntio ar ymateb i anghenion iechyd a lles emosiynol disgyblion ac ar sicrhau bod parhad rhwng cefnogaeth yn yr ysgol a dysgu gartref.

Ar y pwynt yma, mae angen i ni ddiolch i chi'n ddiffuant, fel rhieni a gofalwyr, am y gefnogaeth addysgol rydych chi wedi bod yn ei darparu dros yr wythnosau diwethaf a'r ffordd rydych chi wedi meithrin partneriaeth egnïol gyda'n hysgolion. Mae'n annhebygol y bydd ysgolion yn dychwelyd i'r ffordd y cawsant eu gweithredu cyn y cloi am gryn amser; mae'n anodd gosod amserlen ar hyn. Mae angen i ni edrych ar y trefniadau dod i'r ysgol a dal i fyny fel y camau cyntaf tuag at ysbrydoli a chyffroi disgyblion ynglŷn â dysgu unwaith eto.

Mae staff ein hysgolion wedi bod yn wych yn y ffordd maen nhw wedi dal ati i ddarparu cyfleoedd dysgu. Mae'n amlwg o brofiad diweddar nad yw dysgu'n gwybod unrhyw ffiniau ac na fydd yn cael ei gloi i lawr. Fodd bynnag, bydd y cyfyngiadau a roddwyd ar ysgolion yn cael eu codi'n ofalus ac yn bwyllog. Bydd pob ysgol unigol yn gwneud penderfyniadau ar sut y byddant yn agor a pha grwpiau oedran fydd yn cael eu blaenoriaethu. Disgwyliwn i'r broses hon fod yn ddatblygiadol ac wrth i ysgolion a'u cymunedau fagu mwy o hyder a rhythm byddant yn symud ymlaen tuag at dderbyn hyd at draean y disgyblion ar unrhyw un adeg, er y gall gymryd amser i gyrraedd y lefel hon o weithredu.

Rydym yn ymwybodol y bydd pryder ac ansicrwydd. Bydd ysgolion yn cysylltu â rhieni a gofalwyr dros y dyddiau nesaf i'w hysbysu o'u cynlluniau ailagor ac i roi sicrwydd lle mae angen.

Mae staff yn paratoi ysgolion i sicrhau bod eu gweithrediad yn cydymffurfio â chanllawiau lleol a chenedlaethol a sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl i ddisgyblion a staff.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.uk

Disgwyliwn i ysgolion gysylltu â disgyblion, gan eu paratoi i wneud y gorau o'u hamser yn yr ysgol ac egluro sut y bydd eu profiadau dysgu yn cael eu mireinio.

Byddwn yn gofyn i ysgolion sicrhau bod disgyblion a rhieni yn deall cyn gynted â phosibl sut mae amgylcheddau, gweithdrefnau a gweithrediad wedi'u haddasu er mwyn hwyluso, mor ddiogel â phosibl, dychweliad disgyblion i ysgolion. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a byddant yn cael eu newid lle bo angen, gan roi diogelwch disgyblion a staff wrth wraidd y broses.

Bydd y ddarpariaeth ofal ar gyfer plant gweithwyr critigol a dysgwyr bregus yn parhau yn yr ysgolion tan ddiwedd y tymor. Bydd manylion ynglŷn â'r ddarpariaeth ofal dros wyliau'r haf yn eich cyrraedd cyn gynted â phosibl.

Oherwydd y rheoliadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar ymbellhau cymdeithasol, bydd ein darpariaeth gludiant cartref i ysgol yn gyfyngedig iawn. Anogir pob rhiant i gludo eu plant eu hunain i'r ysgol. Bydd eich ysgol yn eich hysbysu o'r trefniadau hyn yn fwy manwl.

Byddwn yn cefnogi ysgolion i fynd at eu trefniadau dod i'r ysgol a dal i fyny gyda gofal a hyder, gyda dycnwch a manylder a chyda sicrwydd ac optimistiaeth. Byddwn hefyd yn darparu canllawiau i chi fydd yn ateb y cwestiynau allweddol y bydd gennych am y broses hon.

Rwy'n eich gwahodd i fod yn rhan o'r broses hon er mwyn i ni allu cymryd y camau hyn ymlaen gyda'n gilydd, gan gynnal ein plant a'u cefnogi i barhau i ddysgu ac i lwyddo.

Yn gywir

Garem Jackson
Pennaeth Addysg

Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
Aelod Cabinet – Addysg